Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Julie James AS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

21 Rhagfyr 2020

Annwyl Julie

**Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

Buom yn craffu ar **Reoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020** yn ein cyfarfod ar 14 Rhagfyr 2020, ac adrodd arnynt ar yr un diwrnod.

Yn ein **hadroddiad**nodwyd nad yw'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio'n benodol at y ffaith bod y rheoliadau hyn yn ymgysylltu â hawliau dynol a sut y maent o'r farn bod y darpariaethau'n gyfiawnadwy ac yn gymesur yng nghyd-destun yr hawliau hynny. Yn eich ymateb i'n cais i chi gyfiawnhau hyn, dywedasoch eich bod:

> "yn ystyried bod y Rheoliadau'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol."

Fodd bynnag, nid yw'r ymateb hwn yn ateb ein cwestiwn a datganiad barn yn unig ydyw heb ddadansoddiad o sut y daethoch i'r farn hon. Y dadansoddiad hwn yr ydym yn gofyn amdano ac o ganlyniad, sut rydych yn barnu bod cyfiawnhad dros y darpariaethau a'u bod yn gymesur yng nghyd-destun hawliau dynol. Nodwn na wnaethoch fynd i'r afael â'r mater hwn yn ystod y ddadl ar y Rheoliadau yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Rhagfyr 2020.

Wrth ofyn am y wybodaeth hon, dylem ei gwneud yn glir nad ydym yn ceisio rhoi sylwadau ar amcanion polisi'r Rheoliadau. Fodd bynnag, mae gennym rôl i'w chwarae o ran sicrhau bod is-ddeddfwriaeth yn cydymffurfio â hawliau dynol. Yn yr achos hwn, rydym am sicrhau bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried hawliau dynol yn ofalus, gan gynnwys hawliau landlordiaid Erthygl 1 o Brotocol 1.

Felly, byddwn yn croesawu eglurhad eich bod wedi cynnal asesiad ffurfiol o oblygiadau hawliau dynol y Rheoliadau, esboniad ynghylch pam na chafodd ei gynnwys yn y

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Memorandwm Esboniadol a chyhoeddi canlyniad yr asesiad hwnnw cyn gynted â phosibl.

Codwyd pryderon tebyg yn ein hadroddiadau ar **Reoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliol Sicr, Estyn Cyfnodau Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2020** a **Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020** â chyfnewid gohebiaeth ddilynol ym mhob achos.

Rydym yn pryderu am yr hyn sy'n ymddangos fel amharodrwydd Llywodraeth Cymru i ddarparu gwybodaeth am sut y gellir cyfiawnhau darpariaethau mewn Rheoliadau sy'n ymwneud â thenantiaethau a sut maent yn gymesur yng nghyd-destun hawliau dynol. Credwn fod hyn yn hanfodol nid yn unig o ran deddfu da (ac er budd pawb y mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt) ond hefyd o ran ymrwymiad i lywodraeth agored a thryloyw.

Felly, rydym yn ceisio sicrwydd y bydd Memoranda Esboniadol sy'n cyd-fynd â Rheoliadau o'r fath, yn y dyfodol, yn cynnwys y wybodaeth hon, gan osgoi'r angen i'r Pwyllgor ofyn amdani bob tro.

Yn gywir



**Mick Antoniw AS**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English